
Brig y Goeden

# AR DRYWYDD STORI

ROGER STEVENS



# AR DRYWYDD STORI

ROGER STEVENS

Lluniau gan Jacqui Thomas




DRAKE

# 1

# Yr Arian Coll




Roedd Siôn a Nerys yn eistedd yn y gornel ddarllen yn ceisio meddwl am syniadau da ar gyfer storïau. Roedden nhw wedi cael eu dewis i fod yn ohebwyr Cronicl Dosbarth Chwech - papur newydd y dosbarth.

Roedd gohebydd o'u papur lleol wedi bod yn siarad â'u dosbarth trwy'r bore. Bu'n egluro sut roedd papurau newydd yn cael eu cynhyrchu ac roedd Mrs Moss wedi penderfynu y bydden nhw'n llunio un eu hunain.



Roedd y dosbarth yn ferw o gyffro. Roedd hyd yn oed Mrs Moss wedi cyffroi ac roedd hynny'n dipyn o gamp. Y tro diwetha oedd pan gerddodd y Pennaeth i mewn i'r symudyn creaduriaid y pwll a oedd yn hongian o'r nenfwd a chael brogaod ynghlwm yn ei sbectol.

Roedd Siôn wedi meddwl erioed ei fod yn dwp, beth bynnag, i roi brogaod ar symudyn. Symudyn o dîm Lerpwl - byddai hynny'n well.



Trawodd Parminder ei phen heibio i'r silff lyfrau. "Oes unrhyw beth gennych chi rydych chi eisiau ei werthu?" gofynnodd hi. Roedd Parminder yn casglu hysbysebion ar gyfer Cronicl Dosbarth Chwech. Diflas, meddyliodd Siôn, ond roedd y newyddiadurwr wedi dweud bod hysbysebu'n bwysig. Talai hysbysebwyr arian i'r papur. Roedd yr arian yn help i dalu am argraffu'r papur.

"Gallet ti werthu dy sglefrfwrdd," meddai Siôn wrth Nerys.

Tynnodd Nerys dafod arno. “A gallet ti werthu dy fideos Lerpwl,” dywedodd hi.

“Does dim byd gennych chi ’te,” meddai Parminder yn sionc.

Siglodd Siôn ei ben. “Gallen ni geisio gwerthu’r ysgol.”

“Fyddai neb yn ei phrynu,” meddai Parminder, “dim os oeddet ti ynddi hi.” A sbonciodd i ffwrdd i geisio ffeindio rhywun arall.





Agorodd Siôn ei gas pensiliau er mwyn dod o hyd i bin ysgrifennu. "Mae'n rhaid bod rhywbeth y gallwn ni ysgrifennu amdano. Mae'n rhaid bod rhywbeth cyffrous wedi digwydd. Beth am y tro pan gloiodd y gofalwr Mrs Moss yn yr ysgol a chychwynnodd hi'r larwm lladron wrth geisio dod allan?"

Siglodd Nerys ei phen. "Na, y llynedd oedd hwnna. Dylai newyddion fod yn gyfoes."


Erbyn hyn roedd Siôn yn palu yn ei fag. Roedd golwg dryslyd arno.

“Beth sy?” holodd Nerys.

“Fy mhin ysgrifennu. Fy mhin tip ffelt gorau.  Mae e wedi mynd.”

“Dyna ryfedd,” meddai Nerys.  “Y bore yma allwn i ddim ffeindio fy mar siocled.  Dwi’n gwybod bod Mam wedi’i roi fe yn fy mocs bwyd -Aw!”

Roedd crash wrth i bentwr o lyfrau lanio ar eu pennau.  Neidion nhw i fyny mewn syndod wrth i lyfrau hedfan i bobman.  Daeth wyneb trwy’r bwlch yn wên o glust i glust.



"Digri iawn, Gerallt," meddai Siôn. "Nawr taclusa nhw."

"Wyt ti'n mynd i wneud imi?" meddai Gerallt yn wawdlyd.

Cochodd Siôn. "Does arna i mo dy ofn di Gerallt Huws-" dechreuodd.

"Paid, Siôn," rhybuddiodd Nerys. "Rwyt ti'n gwybod sut un yw e."

Roedd ar bawb ofn Gerallt. Ac roedd e bob amser yn pigo ar rywun.



“Rwyt ti’n iawn.” Crechwenodd Gerallt a gwthio rhagor o lyfrau oddi ar y silff.

“Byddi di mewn trwbwl nawr,” meddai Nerys yn grac.

“Wel, os bydda i,” meddai Gerallt, “yna bydd fy mêts yn delio â chi’ch dau yn ystod amser chwarae. Felly mae’n well ichi ddechrau tacluso’n gyflym.” Gadawodd Gerallt, gan adael Nerys a Siôn yn rhythu’n ddigalon ar y llyfrau ar y llawr.

Sbeciodd Alys o gwmpas y gornel. “O diar,” meddai hi mewn llais swil, braidd.


“Gerallt oedd e,” meddai Siôn.

Gwyliodd Alys nhw’n tacluso’r llyfrau.

“Beth sy’n bod?” gofynnodd Nerys iddi.

“O, dwi’n gyfrifol am y tudalen llythyrau. Wnei di ysgrifennu llythyr i’r papur?”

Wfftiodd Siôn. “Gwnaf. Am Gerallt. Bwli yw e.”





Coed

Ar hynny, trawodd Mrs Moss ei mwg coffi ar ei desg. Dyma sut roedd hi'n gofyn am dawelwch.

"Dewch yma, blant," galwodd hi. "Yn gyflym nawr, mae'n bwysig."

Roedd rhuthr gwyllt i fod naill ai yn y blaen neu'r cefn. Safodd Gerallt yn crechwenu ac yn fflicio darnau o bapur at Sali.



"Mae arna i ofn bod newyddion drwg gen i," meddai Mrs Moss, ar ôl i'r dosbarth dawelu. "Y bore yma rhoddais i bapur deg punt yn fy nrôr. Nawr mae e wedi diflannu. Oes unrhyw un wedi'i weld e?"

Roedd distawrwydd.

"Felly," meddai hi, "gallaf ond feddwl ei fod wedi cael ei ddwyn. Mae'n gas gen i ddweud hyn ond dwi'n credu bod lleidr gennym ni yn y dosbarth."



# 2

# Yn y Siop



Roedd Siôn a Nerys yn yr iard chwarae, yn trafod y deg punt coll. Cwrsodd gwynt rhewllyd ddail brown a phacedi creision gwag rownd a rownd mewn dawns wyllt.

"Os gallwn ni ddod o hyd i'r deg punt yna, bydd yn gwneud stori dda," meddai Siôn.

Nodiodd Nerys. "Bydd," meddai hi. "Byddai hynny'n newyddion go iawn. Byddai gennym ni stori go iawn ar gyfer Cronicl Dosbarth Chwech."


Bloeddiodd llais ar draws yr iard chwarae. “Shwmae, Clustiau Mawr.” Gerallt oedd e eto.

Troion nhw eu cefnau ato fe.

“Gerallt!” meddai Siôn. “Dwi’n cofio nawr. Roedd Mrs Moss yn edrych ar ei waith e pan oedd yn rhaid iddi fynd i’r swyddfa i ’nôl anadlwr Tom. Wyt ti’n meddwl bod Gerallt wedi dwyn y deg punt yna? Roedd e ar bwys ei desg hi ac roedd hi allan o’r ystafell. Beth wyt ti’n ei feddwl?”

“Efallai,” meddai Nerys. “Ond sut gallwn ni brofi’r peth?”





Meddylion nhw am eiliad. Rhedodd Gerallt heibio yn cicio pêl-droed. Roedd hi'n perthyn i blant o Ddosbarth 2 ac roedden nhw'n gweiddi ac yn sgrechian eisiau eu pêl 'nôl.

"Gwranda," meddai Nerys. "Os dygodd e'r arian bydd e'n ei wario ar y ffordd adre yn ôl pob tebyg. Gad inni ei ddilyn."

"Gwych," meddai Siôn.

Chwyrlïodd y bêl-droed heibio, gan osgoi pen Siôn o drwch blewyn.

"Hei, Clustiau Mawr," meddai Gerallt yn wawdlyd. "Ga i fy mhêl 'nôl?"

Roedd Siôn a Nerys ymhlith y cyntaf allan o'r ysgol. Pwyson nhw yn erbyn y wal wrth i weddill yr ysgol dyrru allan. Canai cyrn ceir. Roedd plant yn gweiddi ac yn rhedeg o gwmpas yn chwifio ar y mamau a'r tadau a oedd yn aros amdanyn nhw.


O'r diwedd aeth Gerallt heibio gyda rhai o'i fêts. Dilynodd Siôn a Nerys e.



Roedd hi'n rhwydd i ddechrau, yn y dyrfa o blant a mamau a thadau gyda chadeiriau gwthio.  Ond dechreuodd y dyrfa deneuo wrth iddyn nhw gyrraedd gwaelod y bryn ble roedd ffordd yr ysgol yn cwrdd â'r brif ffordd a redai drwy'r ystad.

"Ble mae e?" holodd Nerys, gan graffu o gwmpas yn bryderus.

"Aeth e i mewn i'r siop," meddai Siôn. "Tyrd yn gyflym, neu byddwn ni'n rhy hwyr.  Gad inni weld os yw e'n gwario'r arian yna."





Roedd  tu fewn y siop yn llawn plant. Roedd Mr Patel, y gwerthwr papurau newydd, yn mynd yn bigog, fel y byddai bob amser wrth i blant dyrru o gwmpas ei gownter.

"Un ar y tro, un ar y tro," dywedai o hyd, wrth i ddwylo eiddgar chwifio arian o'i flaen.  Roedd Gerallt wedi gwthio i'r blaen yn barod.

"Paced o sigaréts," meddai Gerallt.

"Rwyt ti'n gwybod 'mod i ddim yn gallu gwerthu sigaréts, Gerallt Huws," meddai Mr Patel.

"Ar gyfer fy mam maen nhw," gwenodd Gerallt. "Gofynnodd hi i fi eu 'nôl nhw ar y ffordd adre."


"Naddo wir," meddai Mr Patel. "Dyw hi ddim mor wirion â hynny."

"Wel, gaf i rai o'r taffis yna, 'te. I fyny ar y silff dop."

Ochneidiodd Mr Patel a throdd i estyn jar fawr.


Ymwthiodd Siôn a Nerys yn nes. "Beth mae e'n mynd i'w wneud?" sibrydodd Nerys.

Cydiodd Siôn ym mraich Nerys.



# 3


# Dirgelwch Arall




Safai Siôn a Nerys yn y siop orlawn yn gwylio Gerallt. Wrth i Mr Patel gydio mewn jar fawr yn llawn taffis gwnaeth Gerallt arwydd anweddus y tu ôl i'w gefn. Piffiodd rhai o'r plant.

Dododd Mr Patel y jar ar y cownter. "Faint wyt ti eisiau?" holodd.


"Dim," meddai Gerallt. "Dwi wedi newid fy meddwl." Trodd ar ei sawdl a gwthio ei ffordd trwy'r dyrfa a gadael y siop. Dilynodd Siôn a Nerys e.



Eisteddon nhw ar wal isel y tu allan i'r siop a gwylio Gerallt a'i fêts yn diflannu i fyny'r bryn mewn giang afreolus yn plethu'n igam-ogam o'r ffordd i'r pafin ac yn ôl i'r ffordd.

"Dyna ben ar hynny," meddai Siôn, yn siomedig. "Beth nawr?"

Cododd Nerys ei gwar. "Ddygodd e ddim byd. Wariodd e mo'r deg punt yna chwaith," meddai hi.




Gwylion nhw wrth i'r plant o'u hysgol fynd adre - y rhai hŷn ar eu pennau eu hunain, y rhai iau gyda'r mamau a'r tadau oedd wedi dod i'w 'nôl. Yn fuan roedd Siôn a Nerys ar eu pennau eu hunain.

"Efallai nad fe yw'r lleidr," meddai Nerys.

"Ond dwi'n siwr mai fe yw e," meddai Siôn. "Bydd yn rhaid inni gadw llygad barcud arno yn y dosbarth yfory."

"Gwranda," meddai Nerys. "Os down ni o hyd i'r deg punt yna gall fod yn brif stori yn y Cronicl."

"Gall," meddai Siôn gan sioncio. "Lleidr yn cael ei ddatgelu gan Siôn Sgŵp, gohebydd di-ail."

"A Nerys Jones," atgoffodd Nerys e. "Ond mae un broblem fawr."

"Beth yw honno?"


"Mae'n rhaid inni ddod o hyd i'r lleidr yn gynta."

"O ie," meddai Siôn yn ddigalon.

"Edrycha, dyma Alys yn dod." Pwyntiodd Nerys.

Cerddodd Alys yn araf tuag atyn nhw, yn llusgo ei bag ysgol. Roedd ei llygaid yn goch. Edrychai fel petai hi wedi bod yn crio.

"Beth sy'n bod?" holodd Nerys.






"Ddaru Mam ddim cwrdd â fi o'r ysgol," meddai Alys. "Addawodd y byddai hi heddiw."

"Mae'n siwr iddi anghofio," dywedodd Siôn. "Anghofiodd fy mam fi unwaith. Arhosais i drwy'r nos. Y bore wedyn fi oedd y cynta yn yr ysgol."

"Paid â dweud celwydd," meddai Nerys. "Paid â chymryd sylw, Alys," aeth yn ei blaen. "Dim ond bod yn dwp mae e. Cerddwn ni gyda thi os wyt ti eisiau."

"Ie," meddai Siôn. "Does dim angen crio."

Dechreuodd Alys feichio crio. "Nid dim ond Mam yn peidio â dod yw e, mae rhywbeth arall."



"Beth?" holodd Nerys.

Meddyliodd Alys am eiliad, yna siglodd ei phen. "Dim byd," meddai hi. "Bydda i'n iawn." Gwyliodd Siôn a Nerys hi'n mynd.

"Sgwn i am beth oedd hynny i gyd," meddai Nerys. "Roedd hi'n ymddangos yn ddigalon iawn."

"Dirgelwch arall," ychwanegodd Siôn.

"Wel, dwi wedi cael digon o ddirgelwch am heddiw a nawr dwi eisiau fy nhe. Dwi'n mynd adre," meddai Nerys. "Gwela i di yfory."

Nodiodd Siôn. “A chadwn ni lygad barcud ar bopeth. Gallen ni osod trap.”

Rhythodd Nerys. “Beth rwyt ti’n ei feddwl?” gofynnodd hi.

“Gallen ni ddal y lleidr ein hunain,” esboniodd Siôn.

“Dim ond y ddau ohonom ni? Paid â bod yn wirion,” meddai Nerys.

“Ond mae syniad gen i,” mynnodd Siôn. “Dyweda i wrthot ti yfory.”


“Wel, dwi’n mynd adre. Gwela i di.”

“Hwyl.” Gwyliodd Siôn hi’n mynd. Ie, penderfynodd. Dyna beth fydden nhw’n ei wneud yfory. Bydden nhw’n gosod trap i ddal y lleidr.



# 4

# Y Trap




Roedd y dosbarth yn ddistaw. Safai Mrs Moss yn y blaen. Roedd ei llais yn llym.

"Ac felly, onibai fy mod i'n dod o hyd i'r deg punt heddiw fydd dim amser chwarae. Byddwch chi i gyd yn aros i mewn ac yn gweithio yn lle hynny. A fydd dim papur dosbarth."

Daeth ochenaid a dechreuodd pawb siarad ar unwaith â'i gilydd.

"Tawelwch!" gwaeddodd Mrs Moss. "Dyw'r math yna o sŵn ddim yn mynd i helpu, nac ydi? Nawr - estynnwch eich llyfrau darllen. Darllenwch yn dawel am yr ugain munud nesa."

Cododd Gerallt ei law. “Dwi wedi gorffen fy llyfr,” meddai fe.


“Yna darllena fe eto,” taranodd Mrs Moss. Pwniodd Gerallt y bachgen oedd yn eistedd nesa ato a chrechwenodd.

“Distawrwydd llwyr,” meddai Mrs Moss. “Dwi’n ei feddwl e.”

Amser cinio eisteddodd Siôn a Nerys ar bwys ei gilydd yn y neuadd lle roedden nhw’n bwyta eu brechdanau.

“Dwi i erioed wedi gweld Mrs Moss mor grac,” meddai Siôn.

“Na finnau.”



Agorodd Siôn ei focs brechdanau. "Beth sydd gennyt ti?" gofynnodd Nerys iddo.


"Brechdanau jam."

Gwnaeth Nerys ystumiau.

Bwyton nhw mewn distawrwydd. "Wyt ti'n credu y bydd dy gynllun yn gweithio?" gofynnodd Nerys o'r diwedd.

"Wrth gwrs y bydd e," meddai Siôn. "Edrycha." Tynnodd ei Gameboy o'i boced.

"Rho fe i gadw gloi, cyn i'r menywod cinio ei weld e," meddai Nerys. "Dwyt ti ddim yn cael dod â rheini i'r ysgol."






Llithrodd Siôn e 'nôl i'w boced yn gyflym. "Mae'r dosbarth i gyd yn gwybod bod fy Gameboy gen i yn yr ysgol. Nawr dyma'r cynllun Bydd yr ystafell ddosbarth yn wag amser cinio, iawn?"

Nodiodd Nerys.

"Awn ni yno nawr a gadael y Gameboy ar fy nesg. Os oes unrhyw un am ddwyn pethau, yna byddan nhw'n trio amser cinio pan nad oes neb o gwmpas."




Aeth Siôn yn ei flaen, “Y cyfan mae’n rhaid inni ei wneud yw gwylio. Os oes unrhyw un o’n dosbarth ni yn mynd i mewn i’r ysgol rydyn ni’n eu dilyn nhw. Bydd pwy bynnag yw e yn gweld fy Gameboy ar fy mwrdd. Maen nhw’n siwr o’i ddwyn e. Yna, i mewn â ni a dal y lleidr wrthi. Beth rwyt ti’n ei feddwl?”

“Wn i ddim,” meddai Nerys. “Oni fyddwn ni’n annog rhywun i ladrata? Dyw e ddim yn iawn. A sut byddwn ni’n profi mai ti sydd biau’r Gameboy? Mae Gameboys gan lwythi o bobl.”

“Dwi wedi defnyddio pin ysgrifennu diogelwch fy nhad i ddodi fy enw arno,” meddai Siôn.

“Ond fyddi di ddim mewn trwbwl am ddod â fe i’r ysgol ?” meddai Nerys.

Cododd Siôn ei war. “Fydd Mrs Moss ond yn rhoi stŵr imi ac yn ei gloi e yn y cwpwrdd nes ein bod ni’n mynd adre.”






"Ond beth os mai Gerallt *yw* e," meddai Nerys.

"Beth rwyt ti'n ei feddwl?"

"Wel, efallai fydd e ddim yn rhoi'r Gameboy yn ôl inni."

"Awn ni â rhai o'r lleill gyda ni. Bydd e'n syrthio ar ei fai os nad yw ei fêts yna. Mae e'n gwneud hynny bob tro."

"Ond beth wnawn ni wedyn?" holodd Nerys.

"Dywedwn ni ein bod ni'n gwybod ei fod e'n dwyn pethau. Os bydd e'n dwyn unrhyw beth arall, dywedwn ni wrth Mrs Moss. Bydd e'n gwybod na all e wadu'r peth ragor. Bydd e'n cyfaddef am y deg punt."

"Wyt ti wir yn credu y bydd y cynllun yn gweithio?" gofynnodd Nerys.

"Wrth gwrs y bydd e. Ymddirieda ynddo i." Cymerodd Siôn hansh mawr o'i frechdan.

Stopiodd e gnoi wrth i Nerys duchan, "O na."

"Beth?" gofynnodd Siôn, gan dasgu darnau o fara i bobman.

"Fy mar siocled. Mae e wedi diflannu eto."




Roedd Siôn a Nerys ar gae'r ysgol yn gwylio gêm bêl-droed. Roedd Siôn yn teimlo'n bryderus. Roedd hi bron yn amser gwersi'r prynhawn a doedd dim byd wedi digwydd. Roedd ar Siôn ofn y byddai Mrs Moss yn mynd 'nôl i'r ystafell ddosbarth a dod o hyd i'r Gameboy yn gynta. Wedyn fe fyddai'r un mewn trwbwl.

Yn sydyn rhedodd Parminder atyn nhw, ei gwynt yn ei dwrn. "Gloi," ebychodd. "Gerallt yw e. Mae e newydd fynd i mewn i'r ysgol."



# 5


# Pwy yw'r Lleidr?



Safodd Parminder, Siôn a Nerys, Sali a Tom mewn haid y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd hi fel petai'r cynllun yn gweithio. Roedd Gerallt yn y dosbarth. Nawr bydden nhw'n darganfod ai fe oedd y lleidr yn wir.

"Gadewch inni fynd i mewn," sibrydodd Siôn. "Mae'n rhaid ei fod e wedi dod o hyd i'r Gameboy erbyn hyn."

"Arhosa ychydig yn hirach," sibrydodd Nerys. "Mae'n rhaid inni roi digon o amser i Gerallt." Edrychodd Siôn o gwmpas yn bryderus. "Ond bydd menyw cinio yn dod unrhyw funud. Neu athro. Wedyn beth wnawn ni?"




Arhoson nhw ychydig yn hirach. Roedd y tyndra yn annioddefol. Roedd cwlwm ym mola Siôn.

"Nawr?" sibrydodd Siôn.

"Iawn," meddai Nerys.

Heidion nhw i mewn i'r dosbarth. Edrychodd Siôn o gwmpas yn gyflym. Doedd y Gameboy ddim ar ei fwrdd mwyach.

Dyna lle roedd Gerallt. "Hei, Clustiau Mawr," meddai'n wawdlyd. "Wyt ti wedi dod i mewn i wneud gwaith ychwanegol?"



"Ble mae fy Gameboy?" holodd Siôn.

"Dwi ddim yn gwybod beth rwyt ti'n ei feddwl," atebodd Gerallt.

"Rydyn ni'n meddwl dy fod ti wedi ei ddwyn e," meddai Nerys.

Chwarddodd Gerallt. "Profa fe. Beth rydych chi'n mynd i'w wneud? F'archwilio i?"

Llyncodd Siôn. Teimlai'n nerfus. "Ie, os oes rhaid," meddai fe.

Newidiodd gwên Gerallt i wg. "Jest tria fe!"

Erbyn hyn roedd y lleill yn tyrru o'i gwmpas. Siaradodd Tom. "Wyt ti'n mynd i'n bwrw ni i gyd, 'te?" gofynnodd e.

Cododd Gerallt ei ddyrnau fel petai ar fin ymladd. Daliodd Siôn ei wynt. Ond roedd Gerallt yn ymddangos yn llai sicr o'i hunan erbyn hyn. Edrychodd ar bawb yn tyrru o'i gwmpas. Yna edrychodd heibio iddyn nhw, at ddrws y dosbarth, gan obeithio y byddai ei fêts yn dod i'w helpu. Yna gostyngodd ei ddwylo a chodi ei war.





Tynnodd y Gameboy o'i boced a'i daflu ar y bwrdd ble syrthiodd â chlec. "Sothach yw e beth bynnag," meddai.

"Ti yw lleidr y dosbarth," dywedodd Siôn wrtho fe.

"Dwyt ti ddim yn gallu ei brofi fe," atebodd Gerallt yn goeglyd.

"Gwranda," meddai Nerys. "Rwyt ti wedi cael dy ddal wrthi. Os oes unrhyw beth arall yn mynd ar goll byddwn ni'n gwybod mai ti oedd e a byddwn ni'n dweud wrth Mrs Moss. Byddwn ni'n dweud y stori i gyd wrthi hi."



Gwingodd Gerallt a dweud dim.

"Iawn?" gofynnodd Siôn, gan deimlo'n ddewrach erbyn hyn.

Sylweddolodd Gerallt eu bod nhw wedi ennill. "Iawn," mwmiodd.

"Nawr ble mae'r deg punt?" gofynnodd Nerys iddo.

Edrychodd Gerallt i fyny yn syn. "Dwi ddim yn gwybod. Wnes i mo'i ddwyn e."

"Do, gwnest ti," cyhuddodd Siôn e.

"Wnes i ddim," protestiodd Gerallt. "Dwi ddim mor dwp â hynny."

Yn sydyn gwthiodd Gerallt heibio iddyn nhw a rhedodd at y drws.

"Ddygais i mo'r arian," gwaeddodd. "Dwedwch beth bynnag rydych chi eisiau, ond ddygais i mohono fe!" Yna aeth e, gan gau'r drws yn glep ar ei ôl.

Cododd Siôn ei Gameboy i weld a oedd e wedi torri. Roedd e'n iawn.

"Wyt ti'n gwybod beth?" dywedodd Nerys yn dawel.

"Beth?" holodd Siôn.


"Dwi'n ei gredu fe. Dwi ddim yn meddwl mai Gerallt ddygodd yr arian."

"Pwy wnaeth 'te?" gofynnodd Siôn.



# 6

# Y Cronicl yn Creu'r Newyddion





"Caewch eich llyfrau," dywedodd Mrs Moss. "Mae gen i rywbeth pwysig i'w ddweud wrthoch chi."

Roedd gwersi'r prynhawn wedi dechrau â darllen distaw. Roedd Mrs Moss wedi galw'r gofrestr mewn llais tawel. Fel arfer, roedd galw'r gofrestr yn hwyl ac roedd Mrs Moss yn cellwair wrth alw'r enwau. Ond dim heddiw.

"Dyw'r arian ddim wedi dod i'r golwg," dywedodd Mrs Moss.

Aeth su o gwmpas y dosbarth. Daliodd Siôn lygad Gerallt. Rhythodd Gerallt 'nôl arno'n herfeiddiol.

Aeth Mrs Moss yn ei blaen, "Dwi wedi siarad â'r pennaeth ac rydyn ni wedi penderfynu ein bod ni'n mynd i anfon llythyr adre at eich rheini. Efallai y gallan nhw ein helpu i ddod o hyd i'r deg punt."



Yn sydyn dechreuodd Alys feichio crio. Cododd o'i bwrdd a rhuthro o'r dosbarth.

"Ewch ymlaen â'ch darllen yn dawel nes imi gyrraedd 'nôl," gorchmynnodd Mrs Moss yn llym.

Cyn gynted ag yr aeth hi, dechreuodd pawb siarad.

"Wel, beth yw dy farn di am hynny?" gofynnodd Nerys i Siôn.

Siglodd e ei ben. "Dwi ddim yn gwybod. Ond mae'n siwr y cawn ni wybod yn fuan."






Daeth Mrs Moss yn ei hôl. “Dwi’n credu ein bod ni wedi dod o hyd i’n deg punt,” meddai hi’n dawel. Roedd distawrwydd llwyr yn y dosbarth. Gallech chi fod wedi clywed darn o sialc yn disgyn.

Mae’n rhaid bod Alys yn gwybod trwy’r amser pwy oedd y lleidr. Efallai taw Gerallt oedd e wedi’r cyfan, meddyliodd Siôn. Efallai fod Gerallt wedi gorfodi Alys i addo peidio â dweud unrhyw beth.



Pwy oedd y lleidr? Roedd pawb yn gwylio Mrs Moss. Ond doedd Mrs Moss ddim yn edrych yn grac. Yn lle hynny edrychai'n drist. "Alys oedd e," meddai hi.

Ebychodd sawl un o'r dosbarth mewn syndod. Llanwodd distawrwydd yr awyr am ychydig eiliadau. Alys? Fyddai hi ddim yn dwyn arian. Mae'n rhaid bod camgymeriad wedi'i wneud. Yna dechreuodd pawb siarad ar yr un pryd.




"Tawelwch!" meddai Mrs Moss. "Nawr gwrandewch. Mae'r pennaeth wedi mynd ag Alys adre i gael gair â'i mam. Roedd dwyn yr arian yn gwbl, gwbl ddrwg a bydd yn rhaid iddi gael ei chosbi, ond roedd rheswm ganddi hi. Mae ei brawd bach, Daniel, yn wael iawn. Mae'n bosib y bydd e'n marw hyd yn oed." Stopiodd Mrs Moss siarad am eiliad. Roedd hi'n edrych yn drist.

"Ond mae siawns o'i achub e," aeth hi yn ei blaen. "Mae ganddo fath prin o ganser ac mae ffordd o'i wella. Ond mae angen llawdriniaeth arno a dim ond yn America mae'n bosibl iddi gael ei gwneud. Roedd Alys yn meddwl y byddai'r deg punt a ddygodd yn help i dalu amdani."

Cododd Parminder ei llaw.

"Ie, Parminder?"

"Ond mae'n costio cannoedd o bunnoedd i hedfan i America," meddai Parminder.

"A miloedd ar gyfer y llawdriniaeth, mae'n siwr," ychwanegodd Sali.

"Mae hynny'n iawn," aeth eu hathrawes yn ei blaen. "Dyw Alys ddim yn ferch ddrwg mewn gwirionedd ond mae hi'n torri ei chalon ar hyn o bryd. Fel y dywedais, bydd yn rhaid iddi gael ei chosbi."



Rhythodd Mrs Moss ar y dosbarth. “Ond pan ddaw hi ’nôl yfory dwi am i chi i gyd fod yn garedig wrthi. Meddyliwch am yr hyn mae hi wedi bod trwyddo. Ac os gwelwch yn dda - peidiwch â siarad am hyn gydag unrhyw un arall. Mae digon o broblemau gan y ferch druan fel ag y mae.”


Cododd Siôn ei law.

“Ie, Siôn?”

“Ydyn ni’n mynd i gario ymlaen â’r papur newydd?”

“Ydych,” meddai Mrs Moss.

Gwaeddodd y dosbarth hwrê.



Cododd Nerys ei llaw. “Allen ni ddim ysgrifennu am frawd Nerys yng Nghronicl Dosbarth 6? Gallen ni godi arian iddo fe, fel maen nhw’n ei wneud mewn papurau go iawn.”

Meddyliodd Mrs Moss am eiliad.

“Dechrau ymgyrch, rwyt ti’n ei feddwl?”

Nodiodd Nerys. “Ie, ymgyrch. Gallen ni geisio codi’r arian ar gyfer costau teithio Daniel.”

“Gwych!” ychwanegodd Siôn. “Ac efallai y gallwn ni gael y papur lleol i’n helpu. Allwn ni ffonio’r gohebydd a ddaeth i siarad â ni?”

“Wel, bydd yn rhaid imi siarad â’r pennaeth yn gyntaf,” meddai Mrs Moss, gan wenu, “ond mae’n swnio fel syniad da i mi a dwi’n siwr y bydd y pennaeth yn cytuno.”



Ysgrifennodd Siôn a Nerys eu stori ar gyfer Cronicl Dosbarth 6. Roedd ganddo bennawd mawr oedd yn dweud HELPWCH DDOSBARTH 6 I ACHUB DAN BACH. Dechreuodd pawb yn y dosbarth gasglu arian. Ymunodd Gerallt Huws hyd yn oed. Cyn bo hir, roedd holl blant yr ysgol a'u mamau a'u tadau eisiau helpu.






Erbyn diwedd y diwrnod canlynol roedd ganddyn nhw £200 yng nghronfa'r ymgyrch, a llawer o bobl i'w helpu i gasglu rhagor.

Ffoniodd Siôn a Nerys y papur lleol o swyddfa'r ysgol. Siaradodd Nerys â'r gohebydd, a oedd â diddordeb mawr. Addawodd hi fynd i weld mam Alys ac ymweld â'r ysgol eto.

"Beth arall ddywedodd hi?" gofynnodd Siôn yn eiddgar.


“Wel, dywedodd nad oedd hi’n gallu addo unrhyw beth ond mae hi’n credu ei bod hi’n stori dda. Mae hi’n credu y byddan nhw’n gallu codi digon o arian ar gyfer y llawdriniaeth a’r costau hedfan. Dywedodd hi y bydd Cronicl Dosbarth 6 yn y papur hefyd.”

“Gwych,” meddai Siôn, gan wenu. “Mae hynny’n wych. Siôn Sgŵp yn Ymgyrch Trugaredd Dosbarth 6 - dwi’n meddwl -”

“Siôn Sgŵp a Nerys Jones,” gorffennodd Nerys, a chwarddodd y ddau ohonyn nhw.



# Am yr awdur



Athro mewn ysgol gynradd oeddwn i ond roeddwn i eisiau ysgrifennu mewn gwirionedd. Ysgrifennais i lawer o storïau a cherddi cyn i fy llyfr cyntaf gael ei gyhoeddi.

Dwi'n byw yn Nottingham gyda fy ngwraig a oedd yn olygydd papur newydd ar un adeg. Rhyngddom ni mae gennym ni dri o blant, Paul, Kate a Joseph. Dwi hefyd yn chwarae mewn band ac yn ymweld ag ysgolion i ddarllen a thrafod fy ngherddi a'm storïau.

Pan ddywedais y stori hon gynta, roedd athrawes o'r enw Mrs Moss yn sicr fy mod wedi ei llunio amdani hi. Doeddwn i ddim. Ond mae hynny'n dangos bod storïau yn gallu bod yn union fel bywyd go iawn.

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 13:**

**Pecyn A**
*Dial Capten Gwaed* gan Paul Shipton
*Yr Anghenfil yn y Wardrob* gan Paul Shipton
*Dan Ddu* gan Susan Gates
*Ar Drywydd Stori* gan Roger Stevens
*Esgyrn!* gan Paul Shipton
*Y Gôli o 'Nunlle* gan Alan MacDonald
*Y Siarc Slei, Seimlyd* gan Tessa Krailing

**Pecyn B**
*Dwi Eisio, Dwi Eisio* gan Paul Shipton
*Y Ffisig Ffrwydrol* gan Alan MacDonald
*Cyfrinach y Gôli* gan Paul Shipton
*Yn Gynt Na'r Gwynt!* gan Paul Shipton
*Aros am Aur* gan Susan Gates
*Y Bwci Bo!* gan Michaela Morgan
*Sgwad Swigyn* gan Paul Shipton

# AR DRYWYDD STORI

Gohebwyr yw Siôn a Nerys i bapur newydd y dosbarth. Ond am beth y gallan nhw ysgrifennu?

Yna mae deg punt yn mynd ar goll ac mae'r ddau ffrind ar drywydd dirgelwch sydd yn cyrraedd y tudalennau blaen.



Brig y Goeden

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 13

ISBN 0-86174-504-3

DRAKE

ISBN 0-86174-504-3